Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gynradd Sirol Gwepra
Llwyni Drive
Cei Connah
Glannau Dyfrdwy
Sir y Fflint
CH5 4NE

23/07/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Gorffennaf 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Sirol Gwepra yn ddiweddar i ystyried cynnydd yn gysylltiedig â'r argymhellion o'r arolygiad craidd blaenorol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

## Gwella addysgu a phrofiadau dysgu i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud

- Mae arweinwyr yn datblygu ymagwedd gyson at addysgu a dysgu ar draws yr ysgol. Maent wedi darparu ystod o ddysgu proffesiynol defnyddiol ar gyfer staff. Mae ffocws ar wella holi wedi sicrhau bod y rhan fwyaf o staff yn defnyddio cwestiynau'n dda i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu syniadau a dyfnhau eu meddwl.
- At ei gilydd, mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu sy'n darparu her addas ar gyfer disgyblion ac yn eu galluogi i wneud cynnydd effeithiol yn eu dysgu. Mewn ychydig o achosion, mae staff yn rhoi gormod o gyfarwyddyd neu gymorth, ac mae hyn yn rhwystro datblygiad annibyniaeth disgyblion.
- Ar draws yr ysgol, mae staff yn darparu cyfle i ddisgyblion ddefnyddio adnoddau go iawn ac elwa ar brofiadau ymarferol yn rheolaidd. Mewn ychydig o achosion, mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith sy'n cyfyngu ar lefel yr her a ddarperir ar gyfer

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

disgyblion. Mae hyn yn golygu nad ydynt bob amser yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud.

- Mae staff yn darparu adborth rheolaidd i ddisgyblion. Yn ystod gwersi, mae staff yn arsylwi a holi disgyblion i wirio'u dealltwriaeth ac yn mynd i'r afael ag unrhyw gamdybiaethau yn effeithiol. Mewn ychydig o achosion, mae adborth athrawon yn canolbwyntio'n rhy gul ar agweddau syml ar waith disgyblion fel cyflwyno. Mae hyn yn golygu nad yw disgyblion bob amser yn ymwybodol o sut i wella ansawdd eu gwaith yn gyffredinol.

### Sicrhau bod prosesau monitro a gwerthuso yn canolbwyntio'n graff ar wella ansawdd yr addysgu

- Mae arweinwyr wedi defnyddio dull ystyriol i wella prosesau monitro a gwerthuso. Maent yn cynorthwyo staff i ddatblygu eu harfer yn effeithiol trwy ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol, yn cynnwys hyfforddi ac ymholi proffesiynol. Mae'r dulliau hyn yn hwyluso deialog broffesiynol sy'n arwain at welliannau mewn addysgu a dysgu.
- Yn ddiweddar, mae dysgu proffesiynol wedi canolbwyntio'n llwyddiannus ar ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion. Mae athrawon yn dechrau ymestyn eu medrau mewn addysgu ysgrifennu trwy ffocws cryfach ar wella medrau llafaredd disgyblion.
- Mae arweinwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol i lywio hunanwerthuso a nodi meysydd allweddol ar gyfer gwella'r ysgol yn gysylltiedig â chynnydd disgyblion yn gywir. Maent yn sicrhau bod pob un o'r staff, yn cynnwys staff cymorth, yn chwarae rôl weithredol yn y broses hunanwerthuso ac yn myfyrio'n rheolaidd ar eu harfer, ac yn ei mireinio.
- Mae arweinwyr yn cydnabod bod angen mireinio prosesau hunanwerthuso ymhellach i gryfhau'r ffocws ar wella ansawdd yr addysgu.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6642086

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol